

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Tymor yr Haf – croeso nôl i hanner tymor olaf y flwyddyn addysgol, gobeithio y bydd eich plentyn yn mwynhau yn ein cwmni dros yr wythnosau nesaf. Mi fydd staff yr ysgol yn parhau i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol ym mhob disgybl sef;

- **Cymreictod**
- **Parchu ei gilydd**
- **Gwneud ei gorau glas**

Eisteddfod T yr Urdd – llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eisteddfod T eleni – roedd hi'n braf eich gweld ar S4C dros hanner tymor.

Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion ar **ddydd Gwener, Gorffennaf 2ail** oherwydd trefniadau hyfforddi staff.

Gwyliau'r Haf – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar **ddydd Gwener, Gorffennaf 16eg** ac yn ail-agor i'r disgyblion ar ddydd Gwener, Medi'r 3ydd.

Eli Haul - gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid sicrhau eich bod yn rhoi eli haul ar eich plant cyn dod i'r ysgol (gellir dod ag eli haul ychwanegol i'r ysgol os ydych yn dymuno). Gwnewch yn siŵr fod y plant yn gwisgo hetiau haul / dillad addas ac yn dod â photel o ddŵr i'r ysgol bob dydd.

Darllen – ceisiwch sicrhau amser priodol yn ystod eich amserlen wythnosol i ddarllen gyda'ch plant – ychydig bach yn gyson yw'r ffordd orau i ddechrau. Wrth i'ch plant ddatblygu hyder wrth ddarllen ceisiwch sicrhau cydbwysedd ieithyddol o safbwynt y llyfrau er mwyn anelu at ddwyieithrwydd llawn.

Amser o flaen sgrîn gyfrifiadurol - mae manteision arbennig i weithgarwch dysgu digidol ac mae nifer o wefannau diddorol wedi eu cynnwys ar wefan yr ysgol a llythron blaenorol y Pennaeth. Fodd bynnag ceisiwch fonitro faint o amser mae eich plant yn treulio ar sgrîn.

Mabolgampau ysgol – yn anffodus oherwydd cyfyngiadau covid 19 ni fydd modd i ni eich gwahodd i'r ysgol ar gyfer ein diwrnod mabolgampau arferol eleni. Fodd bynnag mi fydd pob dosbarth yn cynnal eu gweithgareddau mabolgampau ar sail dosbarth unigol. Mi fydd yr holl weithgareddau arferol y mabolgampau yn digwydd yn ystod y gwersi addysg gorfforol ar gae'r ysgol. Mi fydd tystysgrifau a marciau ar gyfer timau Arthur, Caradog a Dewi yn parhau. **Cofiwch ddillad ac esgidiau addas.**

Symptomau Covid 19- dylai unrhyw un sydd â symptomau Covid-19 aros gartref ar unwaith, archebu prawf a hysbysu'r ysgol. Mae angen i'r aelwyd gyfan hunanynysu nes bod canlyniad y prawf yn hysbys.

Mae'r symptomau'n cynnwys tymheredd uchel, peswch parhaus newydd a cholled neu newid i ymdeimlad o arogl neu flas. Gall fod symptomau eraill yn gynnwys, fel cur pen, blinder ac gwinegon cyffredinol a phoenau sy'n gysylltiedig â'r fflw fel arfer.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Summer Term - welcome back to the last half term of the school year, we hope your child will enjoy our company over the coming weeks. School staff will continue to promote the school's values in all our pupils;

- **Appreciation of the Welsh language and culture**
- **Respecting each other**
- **Trying our very best**

Urdd Eisteddfod T - congratulations to everyone who took part in this year's Eisteddfod T activities - it was great to see many of you on S4C over half term.

Inset Training Day - the school will be closed for pupils on Friday, July 2nd due to staff training arrangements.

Summer Holidays - the school will close for the summer holidays on Friday, July 16th and will re-open for pupils on Friday, September 3rd.

Sunscreen - parents / guardians are kindly reminded to ensure that you apply sunscreen to your children before coming to school (extra sunscreen can be brought to school if you wish). Make sure the children wear appropriate hats / clothing and bring a bottle of water to school each day.

Reading - try to ensure an appropriate time during your weekly schedule to read with your children - a little bit of reading regularly is the best way to start. As your children develop confidence in reading try to achieve a linguistic balance in terms of the books in order to aim for full bilingualism.

Time in front of the computer screen - digital learning activity has many benefits and a number of interesting websites have been included on the school website and previous Headteacher letters. However, try to monitor how much time your children spend in front of a screen.

School Sports - *unfortunately due to the constraints of Covid-19 we will not be able to invite you to school for our usual sports day this year. However, all classes will run their sports activities on an individual class basis. All the usual sports activities will take place during PE lessons on the school field. Certificates and marks for the Arthur, Caradog and Dewi teams will remain. Remember to wear suitable clothing and footwear.*

Covid Symptoms 19 - *Anyone with Covid-19 symptoms should stay at home immediately, order a test and inform the school. The whole household needs to be isolated until the test result is known. Symptoms include high temperature, a new persistent cough and loss or a change in sense of smell or taste. Other symptoms may be early, such as headaches, general tiredness and vomiting and usually flu-related pains.*

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately

**RC Williams,
Headteacher
06/06/2021**